Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau ariannol Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Hydref 2025

# 1. Cyflwyniad

**1.** Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)[1] (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol[2] (y Memorandwm), gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (yr Asesiad), gan Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y Dirprwy Brif Weinidog) ar 2 Mehefin 2025.

**2.** Nod y Bil yw "cryfhau a gwella ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur" drwy:

- Sefydlu egwyddorion amgylcheddol penodol ac amcan amgylcheddol;
- Sefydlu corff statudol, "Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru" (SLlAC), a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol yng Nghymru;
- Diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sefydlu fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth.[3]

**3.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 2 Gorffennaf 2025,[4] gan:

- Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig;
- Alice Teague, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth, Llywodraeth Cymru;
- Naomi Matthiessen, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth, Llywodraeth Cymru.

**4.** Craffodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Bil o ran polisi.[5]

---

[1] Llywodraeth Cymru, Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol
[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 4-5
[4] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 2 Gorffennaf 2025
[5] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

**5.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil hefyd o ran y materion sy'n rhan o'i gylch gorchwyl.[6]

[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Goblygiadau ariannol y Bil

## Ymgynghori

**6.** Ym mis Ionawr 2024, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol a chyflwyno targedau a dyletswyddau statudol ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru, fel y nodir yn ei Phapur Gwyn – Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth (Papur Gwyn). Roedd y dogfennau ymgynghori'n cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol.[7]

**7.** Mae'r Memorandwm yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion hyn ac yn nodi bod cytundeb eang ar yr egwyddorion amgylcheddol a'r targedau bioamrywiaeth. Roedd yr ymatebion i'r corff llywodraethiant amgylcheddol arfaethedig yn fwy amrywiol, a chodwyd nifer o bryderon, megis: annibyniaeth y corff llywodraethiant amgylcheddol; cydweithio ac osgoi gorgyffwrdd; adnoddau digonol; a chyfathrebu clir a thryloyw.[8]

**8.** Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y cynigion terfynol yn y Bil wedi newid yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac ymgysylltu â chymheiriaid, megis:

- cryfhau'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i 'roi sylw arbennig',
- ehangu cymhwysiad yr egwyddorion amgylcheddol i gynnwys CNC ac awdurdodau cyhoeddus, a
- mireinio'r dull o ymdrin â thargedau bioamrywiaeth a darpariaethau monitro ac adrodd.[9]

**9.** O ran effaith y newidiadau hyn o safbwynt ariannol, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

[7] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn, Ebrill 2024
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 137-138
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraffau 16-18 ac 20

> *"… there are not actually major changes between the consultation and the final proposals—it's how we work, as opposed to additional resource and financial implications."*[10]

**10.** Wrth sôn am y pryderon a godwyd ynghylch y corff llywodraethiant amgylcheddol arfaethedig, cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog at bwysigrwydd osgoi gwastraffu arian drwy ddyblygu gwaith a thynnodd sylw at enghraifft yn adran 16(7) o'r Bil:

> *"… it expressly provides that a compliance notice, which is one of the tools within the OEGW's toolbox for ensuring compliance, may not require any action to be taken in respect of an administrative decision in relation to a particular person or case, like, for example—to bring it to really grass-roots basics here—the granting of planning permission under the Town and Country Planning Act 1990, or an infrastructure consent Order under the Infrastructure (Wales) Act 2024, made under those Acts. Those are administrative issues, so what we've tried to do in this is to say, 'Here's where this legislation should and must and will bind.' There are other areas we want to keep it away from duplicating, where there's already the Town and Country Planning Act, where there's already the infrastructure Act and so on."*[11]

## Y costau a'r manteision cyffredinol

**11.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â sawl opsiwn ar gyfer pob cynnig yn y Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (yr Asesiad) yn cyfeirio at ystyried pum opsiwn ar gyfer Rhan 1: Egwyddorion amgylcheddol; pedwar opsiwn ar gyfer Rhan 2: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru; a thri opsiwn ar gyfer Rhan 3: Targedau Bioamrywiaeth.[12]

**12.** Mae'r Asesiad yn pennu cyfnod arfarnu o 10 mlynedd, sy'n rhychwantu'r blynyddoedd 2025-26 hyd at 2034-35. Mae'n cyflwyno cyfanswm costau'r Bil dros y cyfnod arfarnu hwn.[13] Mae hefyd yn meintioli costau a manteision dangosol dros gyfnod arfarnu hwy o 78 mlynedd. Trafodir y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod.

[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 24
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 38
[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 154, 172 a 184
[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 149-150

## Crynodeb o'r costau – cyfnod arfarnu o 10 mlynedd

**13.** Amcangyfrifir mai cyfanswm costau'r opsiynau a ffefrir yn y Bil fyddai £33.64 miliwn dros 10 mlynedd, fel y dangosir yn Nhabl 1.

***Tabl 1: Crynodeb o gyfanswm costau'r Bil dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd***

| **Yr opsiwn a ffefrir** | **Cost (£m)** |
|---|---|
| Egwyddorion Amgylcheddol: Dyletswydd ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth lunio polisi, a dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (opsiwn 5). | 1.62 |
| Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol: Sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol pwrpasol (opsiwn 3). | 20.54 |
| Targedau Bioamrywiaeth: Cyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth newydd, sy'n addas at y diben, mewn deddfwriaeth (opsiwn 3). | 11.48 |
| **Cyfanswm y gost dros 10 mlynedd** | **33.64** |

Ffynhonnell: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) – Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Llywodraeth Cymru

**14.** Dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd, mae'r Asesiad yn nodi'r costau gweinyddol a ganlyn i Lywodraeth Cymru:

- costau trosiannol o £2.23 miliwn, sy'n cynnwys costau staff i weithredu'r egwyddorion amgylcheddol, a datblygu a gweithredu targedau bioamrywiaeth;
- costau rheolaidd o "oddeutu £20 miliwn" sy'n gysylltiedig â'r corff llywodraethiant amgylcheddol newydd;
- costau rheolaidd o "oddeutu £10.3 miliwn" sy'n gysylltiedig â chynnal a monitro targedau bioamrywiaeth.[14]

**15.** Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau cydymffurfio i gyrff cyhoeddus dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd fyddai £1.07 miliwn mewn costau rheolaidd, sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â dyletswyddau newydd i weithredu'r egwyddorion wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol.[15]

[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 151
[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 151

**16.** Mae'r Asesiad yn amcangyfrif "ychydig iawn o gostau ychwanegol" o £12,700 y flwyddyn i CNC.[16]

**17.** Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y costau hyn yn ymwneud ag CNC yn cydymffurfio â'r egwyddorion a'r targedau a nodir yn y Bil.[17]

**18.** Disgwylir i gyrff cyhoeddus hefyd fynd i gostau cydymffurfio ychwanegol wrth gymryd rhan mewn ymchwiliadau gan SLIAC. Fodd bynnag, dywed yr Asesiad, "Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys pa gyrff cyhoeddus fydd yn destun ymchwiliad."[18]

**19.** Cyfeiriodd swyddog y Dirprwy Brif Weinidog hefyd at gostau ychwanegol posibl i CNC pe bai'n destun ymchwiliad gan SLIAC:

> *"We have also tried to assess those in the regulatory impact assessment. We've done that as a total quantum of the expected cost across any and all public authorities that could be subject to those investigations over the course of a year. So, that's estimated at a total of £25,000 per annum. Obviously, we don't know at this stage whether there would be an investigation of NRW, but those costs are in there as well."*[19]

**20.** Dywed yr Asesiad nad oes unrhyw arbedion o ran costau wedi'u nodi.[20]

### Crynodeb o'r manteision – cyfnod arfarnu o 10 mlynedd

**21.** Nid yw manteision y Bil dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd wedi'u meintioli. Dywed yr Asesiad:

> *"Oherwydd natur y darpariaethau, mae'n anodd meintioli'n union fanteision eu gweithredu. Fodd bynnag, mae ymdrech wedi'i gwneud i amlinellu'r manteision posibl a'r costau cyflawni dangosol cysylltiedig, gan dynnu ar dystiolaeth o asesiad effaith Deddf yr Amgylchedd 2021. Gan fod canlyniadau amgylcheddol yn tueddu i ddod i'r amlwg dros gyfnodau estynedig, mae cyfnod arfarnu o 78 mlynedd wedi'i fabwysiadu, yn gyson â'r sylfaen dystiolaeth manteision."*[21]

[16] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 169-170
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 124
[18] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 151
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 125
[20] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 151
[21] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 150

**22.** Er mwyn meintioli manteision y rhan o'r Bil sy'n ymwneud ag egwyddorion amgylcheddol, dywed Llywodraeth Cymru y byddai angen iddi "wybod yn gyntaf y polisïau a'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol y byddent yn cael eu cymhwyso iddynt". Dywed hefyd fod "cymhwyso'r egwyddorion yn cynnwys barn oddrychol, gan ei gwneud yn anodd amcangyfrif".[22]

**23.** O ran manteision SLlAC, mae'r Asesiad yn nodi bod y "manteision yn dibynnu'n rhannol ar bynciau'r achosion a ddygir gerbron y corff". Dywed:

> *"Fel y cyfryw, byddai unrhyw gyfrifiadau o ganlyniadau amgylcheddol penodol yn hynod dybiannol ac yn cynnwys llawer o gafeatau, gan eu gwneud yn llai defnyddiol ar gyfer moneteiddio manwl."*[23]

**24.** Yn yr un modd, o ran targedau bioamrywiaeth, dywed yr Asesiad:

> *"…heb wybod cylch gwaith llawn y targedau bioamrywiaeth i'w dwyn ymlaen o dan y pwerau mae'r Bil hwn yn eu creu, a'r meysydd targed a'r mesurau, mae'n anodd darparu cyfrif cywir o'r manteision y bydd y targedau yn eu creu."*[24]

**25.** Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y byddai unrhyw gyfrifiadau "yn hynod dybiannol, yn cynnwys llawer o gafeatau ac o ddefnydd cyfyngedig" oherwydd "nad oes digon o wybodaeth am y canlyniadau amgylcheddol penodol a grëwyd oherwydd y ddeddfwriaeth".[25]

## Costau a manteision dangosol – cyfnod arfarnu o 78 mlynedd

**26.** Mae'r Asesiad yn meintioli costau a manteision dangosol dros y cyfnod arfarnu o 78 mlynedd, gan dynnu ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ar gyfer y Papur Gwyn[26] a oedd yn seiliedig ar yr asesiad effaith ar gyfer Deddf yr Amgylchedd 2021, sy'n ddeddf gan Senedd y DU.[27]

**27.** O ran y rhesymeg dros gyfrifo'r costau dros gyfnod arfarnu o 10 mlynedd, ac yna'r costau a'r manteision dros gyfnod arfarnu hwy o lawer o 78 mlynedd, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y dull 78 mlynedd yn seiliedig ar y dull a

[22] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 213-214
[23] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 214
[24] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 215
[25] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 215-216
[26] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn, Ebrill 2024
[27] Llywodraeth y DU, Bil yr Amgylchedd: Asesiad Effaith, 3 Rhagfyr 2019

ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd 2021. Esboniodd fod amcangyfrif dangosol yn cael ei gyflwyno am na all Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd bennu gwerth ariannol i fanteision y rhan fwyaf o agweddau ar y Bil, sydd eto i'w penderfynu. Dywedodd hefyd:

> *"But the costs within that are good, we think, as an illustrative. The comparison is with the 10-year appraisal period that we've done, but that's standard Green Book approach."*[28]

**28.** Cyfanswm costau dangosol yr opsiynau a ffefrir yn y Bil dros y cyfnod arfarnu o 78 mlynedd yw £664 miliwn. Nid yw'r Asesiad yn rhoi unrhyw ddadansoddiad pellach ar gyfer y ffigur hwn.[29]

**29.** Pan ofynnwyd iddo sut y cyfrifwyd y gost ddangosol dros y cyfnod arfarnu o 78 mlynedd, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"Those indicative costs of £664 million are derived from the Environment Act 2021 impact assessment. So, they've been refined, we haven't just lifted them and dropped them down; they've been refined using research that we commissioned and adapted to this Welsh context. I've got to keep ramming that home: this is not 'for Wales, read England or Scotland'. So, we've refined them through a commissioned piece of work. And that includes, for example, using population and land area ratios as well, so it really does reflect the Welsh context as far as we possibly can."*[30]

**30.** I'w helpu i ddatblygu'r opsiynau, y costau a'r manteision a gyflwynir yn yr Asesiad, comisiynodd Llywodraeth Cymru The Young Foundation, mewn partneriaeth â WPI Economics, i werthuso'r tri maes allweddol a gynigir yn y Bil.[31]

**31.** Pan ofynnwyd i'r Dirprwy Brif Weinidog sut yr oedd wedi'i fodloni ei hun fod adroddiad The Young Foundation ar oblygiadau ariannol amcangyfrifedig y Bil yn gywir, dywedodd:

> *"We've got confidence in it, because the Young Foundation report provided that base evidence for the cost-benefit analysis*

---

[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraffau 42, 44 a 45
[29] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 150
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 48
[31] The Young Foundation, Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, Mehefin 2025

*of the RIA. But in addition to that, almost as a quality assurance sort of approach, if you like, in shorthand, the team have worked closely, including with the Young report analysis, with Treasury officials throughout the drafting process. So, not just when it's presented, but actually in the putting together of this to check the calculations and the validity of the assumptions that have been used by the Young Foundation report. So, we have good confidence in that."*[32]

**32.** Er bod The Young Foundation wedi cyflwyno ei ddadansoddiad o'r costau a'r manteision ar gyfer tair senario, mae'r Asesiad yn defnyddio'r "senario ganolog" yn y crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r senario hon yn cymhwyso'r "cymarebau poblogaeth a thir mwyaf perthnasol i bob un o'r categorïau mantais a allai ddeillio o dargedau bioamrywiaeth". Mae'n cyfrifo mai £1,717 miliwn fyddai'r manteision dros 78 mlynedd.[33] Ceir dadansoddiad yn Nhabl 2.

***Tabl 2: Crynodeb o'r arbedion dros gyfnod arfarnu o 78 mlynedd ar sail prisiau 2024***

| **Mantais** | **Targedau Cynefinoedd Ehangach (£m)** | **Camau Gweithredu Safleoedd Gwarchodedig (£m)** | **Cyfanswm (£m)** |
|---|---|---|---|
| Atafaelu carbon | 572 | 475 | 1,047 |
| Rheoleiddio ansawdd aer | - | 51 | 51 |
| Hamdden | 258 | 213 | 471 |
| Iechyd corfforol | 80 | 68 | 148 |
| **Cyfanswm** | **910** | **807** | **1,717** |

Ffynhonnell: The Young Foundation – Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, Mehefin 2025 – Tablau 8 a 9

**33.** O ran y penderfyniad i ddefnyddio'r costau a'r manteision ar gyfer y senario ganolog yn hytrach na darparu amrediad o werthoedd, esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog fod hynny'n ymwneud yn rhannol ag eglurder a sicrhau bod y model yn hawdd i'w ddeall, ond bod Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn mai'r senario

[32] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 30
[33] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 218

ganolog yw'r un fwyaf realistig o blith yr holl senarios gan ei bod, meddai, yn cymhwyso'r cymarebau mwyaf perthnasol o ran poblogaeth a thir.[34]

**34.** O ran y posibilrwydd y gellid gwyro oddi wrth yr amcangyfrif canolog dros y cyfnod arfarnu o 78 mlynedd, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"… the central one for us, we think, is compelling. But it will change over time, as we get more detail. Will it change significantly? We don't know. We don't know. But, for now, this is a good model and, I think, a fairly well-established model of doing it. And drawing on the Environment Act 2021, I think, gives us a very good base, because of the working assumptions that they put in, which are the working assumptions we would have put in as well."*[35]

**35.** Esboniodd swyddog y Dirprwy Brif Weinidog fod y model yn seiliedig am y tro ar Ddeddf yr Amgylchedd 2021 hyd nes y bydd y targedau wedi'u datblygu. Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith modelu ei hun ac y bydd ganddi ffigurau mwy cywir ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth.[36]

**36.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor y bydd y gwaith modelu'n cael ei adolygu'n gyson wrth i'r Bil a'r polisi ddatblygu, ac ychwanegodd:

> *"… we're not only doing the work to bring forward the right targets, some of which will have different time durations on them as well, but also the ability at any time—and that is important, 'at any time'—to revisit these targets, in case we see it's not quite the right target, or the target could be out of date, or there's something new we need to really focus in on. And, as we do that, we will need to revise then the financial analysis of what we do."*[37]

## Adolygiad ôl-weithredu

**37.** Mae'r bennod ar yr adolygiad ôl-weithredu yn yr Asesiad yn nodi:

---

[34] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 51
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 55
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 57
[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 60

> *"Unwaith y byddant wedi'u gweithredu, byddwn yn monitro effaith y darpariaethau a'r egwyddorion amgylcheddol cysylltiedig a'r datganiad a'r canllawiau diogelu amgylcheddol integreiddiol drwy ymgysylltu'n barhaus â chynrychiolwyr y diwydiant drwy'r grŵp rhanddeiliaid."*[38]

**38.** Mae'n mynd ymlaen i ddweud y bydd "y datganiad yn cael ei ddiweddaru gan Weinidogion Cymru i adlewyrchu'r newidiadau i'r dirwedd dechnolegol a pholisi" ac mae'n nodi rhagor o gyfleoedd i gynrychiolwyr y sector ddarparu tystiolaeth ar sut y mae'r egwyddorion yn gweithio'n ymarferol. Bydd SLlAC yn goruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus a Gweinidogion Cymru (trafodir y costau sy'n gysylltiedig â SLlAC ym Mhennod 3).[39]

**39.** Ar ôl iddynt gael eu gweithredu, bydd effaith y targedau bioamrywiaeth yn cael ei monitro drwy ymgysylltu'n barhaus â chynrychiolwyr y diwydiant ac arbenigwyr annibynnol.[40]

## Barn y Pwyllgor

**40.** Mae'r Pwyllgor yn nodi amcanion y Bil a'i fwriad i gryfhau a gwella ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi cost amcangyfrifedig y Bil, sef £33.64 miliwn rhwng 2025-26 a 2034-35, gyda chostau dangosol o £664 miliwn a manteision dangosol o £1,717 miliwn dros gyfnod arfarnu o 78 mlynedd (2025-26 – 2103-04).

**41.** Nodwn y cyfnod arfarnu newydd o 78 mlynedd a fabwysiadwyd ar gyfer yr Asesiad hwn, sy'n seiliedig ar ddull Llywodraeth y DU o gynnal y dadansoddiad o'r costau a'r manteision ar gyfer Deddf yr Amgylchedd 2021. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym fod amcangyfrif dangosol yn cael ei gyflwyno am na all Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd bennu gwerth ariannol i fanteision y rhan fwyaf o agweddau ar y Bil, sydd eto i'w penderfynu.[41]

**42.** Rydym yn cydnabod bod rhai darpariaethau yn y Bil yn creu costau a manteision sy'n estyn y tu hwnt i'r cyfnod arfarnu safonol o 10 mlynedd a awgrymir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys y DU.[42] Er hynny, mae'r Pwyllgor wedi'i chael yn hynod anodd asesu cywirdeb y costau a'r manteision hyn dros gyfnod arfarnu mor

[38] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 250
[39] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 250
[40] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 252
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 44
[42] Trysorlys EF, The Green Book: central government guidance on appraisal and evaluation, 2022

hir. Rydym wedi ystyried y Bil a'r Asesiad fel y'u cyflwynwyd, ond mae'n bwysig cydnabod natur ddangosol yr amcangyfrifon a gyflwynwyd, yn ogystal â'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhagfynegi ar sail mor hirdymor a'r potensial i'r costau a'r manteision newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Gan hynny, roedd yn anodd i'r Pwyllgor weld y darlun llawn o ran y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil. Yn benodol, rydym yn siomedig nad yw'r Asesiad yn rhoi unrhyw esboniad na dadansoddiad ar gyfer y gost ddangosol amcangyfrifedig o £664 miliwn dros y cyfnod arfarnu o 78 mlynedd. Nid yw'r dull hwn yn fuddiol o safbwynt tryloywder a gofynnwn i'r manylion hyn gael eu darparu.

**43.** Clywsom y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith modelu ei hun ar gostau'r Bil hwn, ac y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei adolygu'n 'gyson' wrth i'r Bil a'r polisi ddatblygu. Clywsom hefyd y bydd ffigurau mwy cywir ar gael ar gyfer Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn. Ategwn ein hargymhellion blaenorol yn hyn o beth, sef ein bod yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth fod wedi'u costio'n gynhwysfawr ac yn gywir, ac rydym yn galw ar y Dirprwy Brif Weinidog i roi sicrwydd o ran hynny.

**44.** Rydym hefyd yn disgwyl i asesiad meintiol o gostau a manteision gwirioneddol y Bil gael ei gynnwys yn yr adolygiad ôl-weithredu, er mwyn sicrhau bod amcanion y Bil yn cael eu cyflawni yn unol â'r disgwyliadau a bod gwerth am arian wedi'i sicrhau. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried hyd a lled y newidiadau a gynigir yn y Bil a'u harwyddocâd, a natur ddangosol yr amcangyfrifon a gyflwynir.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog fanylu ar sut y cyfrifwyd y gost ddangosol o £644 miliwn dros y cyfnod arfarnu o 78 mlynedd, ac y dylai gynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog ymrwymo i sicrhau tryloywder llwyr ynghylch y costau drwy gyhoeddi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai’r Dirprwy Brif Weinidog feintioli a chyhoeddi'r costau a'r manteision gwirioneddol sy'n deillio o'r Bil fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu, ac y dylai gadarnhau'r amserlenni arfaethedig ar gyfer yr adolygiad.

# 3. Costau elfennau penodol o'r Bil

## Corff Llywodraethiant Amgylcheddol

**45.** Mae Rhan 2 o'r Bil yn sefydlu SLlAC "i ddarparu goruchwyliaeth strategol annibynnol ar effeithiolrwydd, cymhwyso a gweithredu cyfraith amgylcheddol, gan gynnwys unrhyw fethiannau gan awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol".[43]

**46.** Amcangyfrifir y bydd sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol yn costio £20.54 miliwn dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd.[44]

***Tabl 3: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru: Amcangyfrif o'r costau***

| Newidiadau o'r llinell sylfaen | Cost (£) |
|---|---|
| Costau uniongyrchol corff llywodraethiant | 20,503,700 |
| Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill | 38,200 |
| **Cyfanswm y gost ychwanegol** | **20,541,900** |

Ffynhonnell: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) – Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Llywodraeth Cymru

**47.** Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch y rhesymeg dros sefydlu corff newydd yn hytrach na rhoi'r swyddogaethau i gorff sydd eisoes yn bodoli neu estyn swyddogaethau Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd[45] i Gymru. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog nad oes corff sy'n bodoli eisoes yng Nghymru sy'n addas i gyflawni'r rôl honno nac yn gallu cyflawni'r rôl, a bod CNC yn cyflawni swyddogaeth wahanol iawn. Ychwanegodd:

> *"… the other consideration is we have devolved control of environmental law here in Wales. We've used it numerous times to achieve environmental outcomes in Wales. So, the organisation responsible for overseeing this law must, therefore, reflect the Welsh context. And that is really important. It's not just the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.*

[43] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 5
[44] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 209
[45] Mae gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cwmpasu Lloegr a Gogledd Iwerddon (a materion a gedwir yn ôl ledled y DU).

> *There are other policies and legislative pieces in our framework that are not in England. And the new body would have to do that."*[46]

**48.** Tynnodd y Dirprwy Brif Weinidog sylw at y ffaith bod yr Asesiad yn gwerthuso manteision ac anfanteision yr opsiynau, ac roedd o'r farn y byddai estyn swyddogaethau Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Gymru yn llai na delfrydol ac yn gam yn ôl o ran gwaith craffu'r Senedd a'i dylanwad. Dywedodd y byddai hynny hefyd yn gofyn am gyllideb ddisgwyliedig a chyllideb staffio a fyddai'n debyg i'r hyn y byddai ei angen ar gyfer corff pwrpasol i adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"… based on our analysis of this needing to be a body that's lean and efficient, but which also reflects the Welsh context, is that our design here with a Wales body means that we're not constrained to the same systems and approaches as the OEP. It enables us then to reflect lessons, going forward, about what works and what hasn't worked."*[47]

**49.** Mae'r Asesiad yn nodi cost sefydlu untro o £480,000 yn 2025-26, a chostau cylchol wedi hynny sy'n dechrau ar £2.79 miliwn bob blwyddyn o 2026-27 ymlaen, yn seiliedig ar amcangyfrifon cyllideb Llywodraeth Cymru.[48] Mae hyn yn gyfwerth â £25.1 miliwn dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd.

**50.** Mae'r Asesiad yn nodi bod yr amcangyfrif o £2.79 miliwn yn seiliedig ar gostau rhedeg corff Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS) sydd, yn ôl yr Asesiad, yn gymhariaeth addas o ran maint.[49] Mae adroddiad The Young Foundation yn nodi bod yr amcangyfrif hwn "yn seiliedig ar etifeddiaeth yr ESS".[50]

**51.** Trafododd y Pwyllgor y rhesymeg dros seilio costau rhedeg SLIAC ar fodel yr Alban, o ystyried yr angen i adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig o ran polisi a deddfwriaeth a'r gwahaniaethau o ran arwynebedd tir a maint y boblogaeth. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraffau 77-78
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraffau 78-79
[48] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 179
[49] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 179
[50] The Young Foundation, Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, Mehefin 2025, tudalen 63

> *"… it's not the scale that's the important thing; it's the functions and the authority and the independence and the capacity of this organisation to do what we require."*[51]

**52.** Cafodd ESS gyllid adnoddau blynyddol o £3.1 miliwn yn 2025-26.[52]

**53.** Nid yw'r Asesiad yn rhoi unrhyw ddadansoddiad o'r costau rhedeg blynyddol o £2.79 miliwn ar gyfer SLlAC.

**54.** O ran nifer y staff, mae cyfrifon diweddaraf ESS ar gyfer 2023-24 yn dangos tua 24 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, a saith aelod o'r bwrdd (nad ydynt yn gyfwerth ag amser llawn). Mae amrediad y bandiau cyflog cyfwerth ag amser llawn a ddangosir yng nghyfrifon ESS yn amrywio o isafswm o £30,000-£35,000 i uchafswm o £110,000-£115,000. Tua £46,000 yw'r cyfanswm cyflog canolrifol. Nid yw hyn yn cynnwys argostau.[53]

**55.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog fod costau SLlAC yn seiliedig ar strwythur staffio tebyg i ESS a'u bod yn adlewyrchu amcangyfrif o gostau staffio'r gwasanaeth sifil ar gyfer y math iawn o rolau yn y sefydliad hwnnw. Dywedodd:

> *"It will, however, be for the OEGW ultimately to use their expertise to determine the most effective staffing structure to deliver these functions. We'll need to provide the budget and the structures will be subject to ministerial agreement…"*[54]

**56.** Dywedodd hefyd fod yr amcangyfrifon o'r costau yn seiliedig ar tua 15 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn, ar ystod o raddau, ac ychwanegodd:

> *"But to be crystal clear, there isn't going to be anybody in this organisation sitting around twiddling their thumbs. We anticipate it will be lean and mean, very directive, very efficient."*[55]

**57.** O ran yr arbenigedd a fydd ar gael a lliniaru'r risg y gallai sefydliadau eraill golli staff da i SLlAC, cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog fod pryderon gwirioneddol ynghylch hynny sydd hefyd yn berthnasol mewn meysydd gwaith eraill, fel rheoli

---

[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 82
[52] Llywodraeth yr Alban, 2025-26 - Tablau Cyllidebol Lefel 4 fel y'u diwygiwyd yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3
[53] Safonau Amgylcheddol yr Alban, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, tudalennau 62-63
[54] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 85
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 94

risg llifogydd ac erydu arfordirol ac adfer safleoedd mwyngloddio. Awgrymodd y byddai'r Bil yn cynnig cyfleoedd i gryfhau'r bylchau sgiliau a nodwyd:

> *"… we'll need bespoke training, we'll need peer-supported learning, we'll need cross-sector collaboration. We will need to build capacity. I can reassure you that we are working right across the sector to find the solutions to these challenges."*[56]

**58.** Mae'r Asesiad yn nodi bod "sefydlu un awdurdod cyhoeddus yn golygu costau na ellir eu meintoli sy'n gysylltiedig â'r amser sydd ei angen iddo ddod yn weithredol ac yn effeithiol".[57]

**59.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor y gallai costau na ellir eu meintioli godi os na fydd cyflenwad llawn o staff neu aelodau o'r bwrdd:

> *"That … is why we need to give that time for this organisation to be fully set up, before we operationalise all of its functions, because if we do it before it's fully set up, then we're almost dooming it to failure from word 'go'. It needs to be fully resourced."*[58]

**60.** Mae'r Asesiad yn cydnabod y gallai creu SLlAC greu costau ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru oherwydd "eu hangen i archwilio ac ymgysylltu â'r sefydliad newydd". Yn ôl yr Asesiad, "ar hyn o bryd, mae'r costau hyn yn anhysbys".[59]

## Fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth statudol

**61.** Cyfanswm cost gweithredu'r fframwaith targedau bioamrywiaeth statudol yw £11.48 miliwn dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd.

***Tabl 4: Targedau bioamrywiaeth: Amcangyfrif o'r gost***

| **Newid o'r llinell sylfaen** | **Trosiannol (£)** | **Rheolaidd (£)** | **Cost (£)** |
|---|---|---|---|
| Datblygu polisi/targedau | 370,000 | 3,829,700 | 4,199,700 |
| Gweithredu a monitro | 0 | 7,277,800 | 7,277,800 |
| **Cyfanswm y gost ychwanegol** | **370,000** | **11,107,500** | **11,477,500** |

[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraffau 101-102
[57] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 152
[58] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 110
[59] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalen 179

Ffynhonnell: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) – Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Llywodraeth Cymru

**62.** Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau staff i ddatblygu a chynnal y fframwaith fydd £303,900 bob blwyddyn, sef cyfanswm o £3,038,600 dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Mae'r Asesiad yn rhoi dadansoddiad o'r staff sydd eu hangen (yn ôl graddau a chanran o'u hamser), gan nodi y bydd angen 13 o aelodau o staff ar raddau sy'n amrywio o Ddirprwy Gyfarwyddwr (ar gost staff o £134,146 ar gyfartaledd) i Swyddog Gweithredol Uwch (ar gost staff o £59,808 ar gyfartaledd).[60]

**63.** At hynny, bydd angen "staff gwasanaethau cyfreithiol, costau cyfieithu a chymorth drafftio gan Swyddfa'r Cynghorwyr Deddfwriaethol" wrth ddatblygu a gweithredu'r fframwaith dros flynyddoedd ariannol 2026-27 a 2027-28 ar gost o £395,500 bob blwyddyn, sy'n rhoi cyfanswm costau datblygu deddfwriaethol o £791,100.[61]

**64.** Mae hyn yn gyfwerth â chostau staff rheolaidd o £3,829,700 dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd.

**65.** Cadarnhaodd swyddog y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi edrych ar y gymhariaeth o ran costau a'r cymysgedd staffio yn Lloegr a'r Alban ac mewn modelau tebyg yng Nghymru, gan gynnwys gofynion adrodd a monitro sero net.[62]

## Barn y Pwyllgor

**66.** Nodwn farn y Dirprwy Brif Weinidog fod angen sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol newydd i adlewyrchu'r cyd-destun unigryw yng Nghymru o ran polisi a deddfwriaeth. At hynny, nodwn ei dystiolaeth nad oes corff sy'n bodoli eisoes yng Nghymru sy'n addas i gyflawni'r rôl honno nac yn gallu cyflawni'r rôl, ac y bydd y corff yn dynn ac yn effeithlon, gyda chostau rhedeg blynyddol amcangyfrifedig o £2.79 miliwn.

**67.** O ystyried y pwyslais a roddodd y Dirprwy Brif Weinidog ar bwysigrwydd sefydlu corff pwrpasol ar gyfer Cymru o ran effeithiolrwydd y Bil, rydym yn synnu bod y costau a gyflwynir yn seiliedig ar gostau rhedeg corff Safonau Amgylcheddol yr Alban. At hynny, rydym yn siomedig nad yw'r Asesiad yn rhoi unrhyw ddadansoddiad o'r costau rhedeg blynyddol o £2.79 miliwn ar gyfer corff

[60] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 191, 200 a 211
[61] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, tudalennau 199 a 211
[62] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2025, paragraff 114

arfaethedig SLIAC a hoffem ddeall sut y mae'r costau hyn wedi'u cyfrifo. Rydym yn arbennig o siomedig â'r diffyg manylion ynghylch costau staff yn ôl gradd a’r effaith o ran costau ar Swyddfa Archwilio Cymru.

**68.** Amcangyfrifir mai cyfanswm cost gweithredu'r fframwaith targedau bioamrywiaeth statudol fydd £11.48 miliwn dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Rydym yn croesawu'r manylion yn yr Asesiad ynghylch y costau staffio ac yn nodi bod yr amcangyfrif hwn wedi'i ddatblygu drwy gymharu’r costau a’r cymysgedd staffio yn Lloegr a’r Alban ac mewn modelau tebyg eraill yng Nghymru.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai’r Dirprwy Brif Weinidog fanylu ar sut y cyfrifwyd y costau rhedeg blynyddol o £2.79 miliwn ar gyfer Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, ac esbonio pam y mae'r costau hyn yn seiliedig ar gostau rhedeg corff Safonau Amgylcheddol yr Alban a sut y cawsant eu diwygio i ystyried y cyd-destun Cymreig, ac y dylai gynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai’r Dirprwy Brif Weinidog ddarparu dadansoddiad o'r adnoddau staffio sydd eu hangen, yn ôl gradd, ar gyfer Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, ac y dylai gynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai’r Dirprwy Brif Weinidog, drwy ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, amcangyfrif y gost i Swyddfa Archwilio Cymru o ymgysylltu â chorff arfaethedig Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru a'i harchwilio, ac y dylai gynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2.